OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 437 (Cy. 98)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Sanclêr, Sir Gaerfyrddin i Hwlffordd, Sir Benfro) (Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *20 Ebrill 2020* |
| *Yn dod i rym* | *24 Ebrill 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A40, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Sanclêr, Sir Gaerfyrddin i Hwlffordd, Sir Benfro) (Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2020 a daw i rym ar 24 Ebrill 2020.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(a) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**2**); a

(b) unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu’r llu awyr ac sy’n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy’n aelod o’r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy’n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau am 00:01 o’r gloch ar 24 Ebrill 2020 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A40 Llundain i Abergwaun;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw’r unedau hynny o’r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

**Cyfyngiadau a Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni i’r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni i’r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo’r cyfyngiad a bennir yn erthygl 4 yn weithredol.

---

(**2**) Amnewidiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a’r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a’r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

### Cymhwyso

**6.**—(1) Ni fydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

### Atal Dros Dro

**7.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau modur ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys.

### Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 20 Ebrill 2020

*Nicci Hunter*
Arweinydd Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

## ATODLEN 1
## Terfyn Cyflymder 40 mya neu 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 211 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â Chylchfan Sanclêr hyd at bwynt 375 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â ffordd ddiddosbarth yr U6385 yn Llanddewi Felffre (gan gynnwys cerbytffyrdd cylchredol Cylchfan Heol Llanboidy a Chylchfan Blackbridge, Hendy-gwyn ar Daf).

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt tua 1.11 cilometr i'r gorllewin o'i chyffordd â ffordd ddiddosbarth yr U6385 i Lanbedr Felffre hyd at bwynt 27 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Robeston Wathen (gan gynnwys cerbytffordd gylchredol Cylchfan Penblewin).

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 37 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â Chylchfan Robeston Wathen hyd at bwynt 36 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Pont Canaston.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 39 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â Chylchfan Pont Canaston hyd at bwynt tua 1.2 cilometr i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd orllewinol â'r ffordd sirol a elwir yn Cartlett, Hwlffordd.

## ATODLEN 2
## Terfyn Cyflymder 10 mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Sanclêr hyd at bwynt 211 o fetrau i'r gorllewin o'r gyffordd honno.

Y darn o'r gefnffordd yn Llanddewi Felffre sy'n ymestyn o bwynt 375 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â ffordd ddiddosbarth yr U6385 am bellter o tua 1.49 cilometr.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 27 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Robeston Wathen hyd at bwynt 37 o fetrau i'r gorllewin o'r gylchfan honno, gan gynnwys ei cherbytffordd gylchredol.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 36 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Pont Canaston hyd at bwynt 39 o fetrau i'r gorllewin o'r gylchfan honno, gan gynnwys ei cherbytffordd gylchredol.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt tua 1.2 cilometr i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sirol a elwir yn Cartlett hyd at ei chyffordd â Chylchfan Scotchwell, Hwlffordd.